# LLYFRAU CYMRAEG EVESHAM

Gan
BRYNLEY F. ROBERTS

MAE'N DEBYG y gellid paratoi rhestr ddiddorol o'r mannau annhebyg lle y mae llyfrau Cymraeg wedi'u hargraffu neu'u cyhoeddi tros y blynyddoedd. Rhesymau personol, gan amlaf, sy'n cyfrif fod cyhoeddiadau Cymraeg wedi ymddangos o weisg mewn trefi annisgwyl, a bydd enw'r awdur a deall yr amgylchiadau, fel arfer yn ddigon o esboniad. Y mae hyn yn sicr yn egluro sut y daethpwyd i argraffu dau lyfr Cymraeg yn Evesham.

Awdur y ddau oedd y Parchedig Timothy Davis, gweinidog Undodaidd yn Evesham o 1819 hyd ei farw yn 1860. Ail fab - a thrydydd plentyn - yr enwog David Davis, Castell Hywel, a'i wraig Anne ydoedd.

Ganwyd ef 20 Tachwedd 1779 ym Mhlas-bach, Ciliau Aeron, ac wedi cyfnod yn ysgol ei dad a gofalu am y fferm gartre, yn 1798 aeth i ysgol ramadeg Caerfyrddin ac yna i'r Academi i ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth anghydffurfiol. Cafodd ei ordeinio yn Llwynrhydowen fis Awst 1802.

Bu'n cydweinidogaethu â'i dad am gyfnod ond fis Mehefin 1810, 'provision for ministers in Wales being very scanty' meddai, ildiodd (wedi gwrthod gynt) a derbyn gwahoddiad i fynd i eglwys yn Coventry. Dechreuodd ar ei waith yno fis Medi y flwyddyn honno.

Ar ddydd ei benblwydd yn 32 oed, priododd Elizabeth New, merch i fasnachwr gwlân da ei fyd yn Evesham. Erbyn mis Mehefin 1819 yr oedd pethau wedi chwerwi'n ddirfawr yn ei eglwys a chryn anghydfod yn codi ynglŷn â hawl y gynulleidfa i herio penderfyniadau Ymddiriedolwyr yr achos.

Derbyniodd ef wahoddiad i Eglwys Bresbyteraidd Oat Street Evesham, lle y buasai ei ewythr Benjamin, brawd ei dad, yn weinidog hyd ei farw fis Ionor 1811, ac yno yr arhosodd nes iddo ymddeol yn 1853.

Bu farw 28 Tachwedd 1860, a cheir cofeb iddo ar fur y capel. Ceir ei hanes yn *Yr Ymofynydd*, Ionawr, Chwefror 1864, *Yr Ymofynnydd* 1947.

* * *

BU TIMOTHY Davis yn cadw dyddlyfrau manwl am flynyddoedd lawer. Y mae deg o gyfrolau, o 1804 hyd 1858, yn y Llyfrgell Genedlaethol (mss 5487-5497) ac yn y rhain gwelir ef yn nodi, fel yr eglura ef ei hun, 'short notices and reflections on passing events', 'memorandums of daily occurrences and facts with occasional short reflections for my own satisfaction and for reference when occasion requires'.

Dyddlyfrau, nid dyddiaduron, ydynt, sydd yn cynnwys nid cofnodion o hynt a helynt ei fyw beunyddiol, yn gymaint â'r myfyrdodau, hunan-ymholi, addunedu a chyffesu a godai o amgylchiadau'r dydd a ystyriai'n bwysig.

Soniai lawer am gyflwr ei iechyd, ond y mae yma lawer mwy o rannu gofid a phryder ynghylch afiechyd meddwl ei frawd David, gweinidog a gadwai ysgol yng Nghastell-nedd ac y gofalai Timothy amdano'n dyner iawn.

Testun cyson arall yw ei hiraeth am ei fab Anthony a fu farw yn 1828 yn 12 mlwydd oed, galar nid annhebyg i'r hyn a brofodd ac a fynegai Gomer ar farwolaeth ei fab yntau yn 1823. Yr oedd yn briodol fod Timothy Davis wedi coffau Anthony yn *Seren Gomer*, Tachwedd, 1828 (yn ogystal ag yn y cylchgronau Saesneg).

Ond y mae yn y dyddlyfrau lawer iawn o adrodd pleserau'r bywyd teuluaidd a chymdeithasol, fel bod ynddynt ddarlun eglur o weinidog a goleddai syniadau radicalaidd ddigon (fel ei dad) ac a ddarllenai (ac a brynai) lenyddiaeth ddiwinyddol a gwleidyddol y dydd, ond un a oedd hefyd yn prysur dyfu'n aelod o ddosbarth canol pur gysurus ei fyd yn faterol a chymdeithasol.

Y mae'r disgrifiadau ohono'n ymuno â St David's Society Birmingham yn 1829 a'r ciniawa yn y Royal Hotel yn arwydd glir o safle gymdeithasol y gweinidog undodaidd hwn - ac eraill ond odid - yn y canolbarth.

A phan aeth ef a'i ferch Caroline i Gymru yn 1832 pan fu farw ei fam, yn null teithwyr Saesneg y cyfnod y cofnododd y gylchdaith, y golygfeydd, a safon y lletygarwch yn y Wynnstay Arms, Machynlleth, a'r Golden Lion, Dolgellau.

* * *

CÂI HANES yr hyn a ddigwyddai yng Nghymru yn llythyrau ei rieni, ei berthnasau a'i gyfeillion, ond câi gyfle hefyd i ddarllen y *Carmarthen Journal*, *Welshman*, *Cambrian*, ac, yn achlysurol, *Y Traethodydd*.

Byddai'n ymweld â Chymru'n gyson, â'r Academi yng Nghaerfyrddin, y Welsh Unitarian Society yn Abertawe, ac âi'n rheolaidd i'r hen ardal, i gyfarfodydd arbennig ac i bregethu yng nghapeli'r cylch. Canlyniad dau o'r ymweliadau hyn yw'r ddau lyfryn Cymraeg a gyhoeddodd yn 1832 a 1848.

Ond cyn hynny yr oedd ef a'r teulu wedi amcanu dwyn allan ail argraffiad o lyfr ei dad, *Telyn Dewi*. Cyhoeddwyd hwn gyntaf yn 1824 gan Longman, Hurst, Rees, Orme, Brown a Green, Pater Noster Row, Llundain, ond argraffwyd ef gan F. Fogg, Abertawe.

Ymddengys mai'r mab David a baratodd y gwaith, a barnu wrth y rhagair sy'n derbyn mai 'Y Colwynydd (golygydd) a'r argraffydd sydd yn gyfrifol am y gwallau' ac a lofnodir yn 'Neath'.

Nid wyf wedi ceisio olrhain hanes cyhoeddi'r gyfrol ond yr allwedd i ddeall y cyhoeddi annisgwyl yn Llundain yw'r 'Rees' ymhlith enwau'r cyhoeddwyr. Owen Rees yw hwn, partner yng nghwmni Longman, a mab i un o gyfeillion mawr David Davis Castell Hywel, sef Josiah Rees, Gelli-onnen.

Bu farw David Davis yn 1827 a chofiant Thomas Griffiths, Ciliau, iddo yn ymddangos o wasg John Evans, Swyddfa Seren Gomer, Caerfyrddin, yn gynnar yn 1828. Rhoddodd y teulu bob cefnogaeth i Thomas Griffiths (anfonodd Timothy £5.00 a £12.00 iddo Nadolig 1828 a Ionawr 1829), ond mae'n eglur hefyd eu bod hwythau wedi dechrau trefnu i ailgyhoeddi

**i dud 15**


# LLÊN LLŶN

## Y Maes, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5HB. Ffôn: Pwllheli (0758) 612907

| | |
|---|---|
| ATLAS Sir Gaernarfon (E. H. Owen ac Elfed Thomas) 124t M. Caernarfon, 1924 | £2.25 |
| BEIRDD Meirion (gol. R. Williams Parry) 86t M. Blaenau Ffestiniog, 1932 | £3.50 |
| CARROLL, Lewis: Anturiaethau Alys yng Ngwlad Hud (cyf. Selyf Roberts) 68t Gee, 1953 | £2.50 |
| COUPLAND, Reginald: Welsh and Scottish Nationalism 426t Collins, 1954 | £8.50 |
| CYBI: Odlau Eifion 128t M Pwllheli, 1908 | £3.50 |
| CYBI: Robert ap Gwilym Ddu (Lloffion 'Yr Ardd') 128t Pwllheli, 1911 | £4.50 |
| CYFRES y Tymhorau 1-4 (4 llyfr) 310t M Aberystwyth 1931/32 | £3.00 y set. |
| CYFROL Deyrnged Syr Thomas Parry-Williams 164t Llys Eist, 1967 (arg 1) | £7.50 |
| CYMRU - yn Hanesyddol, Parthedegol a Bywgraphyddol 4 cyfrol, 1400t & dar. & mapiau lliw Blackie, d.d | £35.00 y set |
| CYMRU Heddyw ac Yforu (gol. T. Stephens) 396t & dar. Caerdydd, 1908 | £10.00 |
| DANIEL, Catherine: Enlli, Porth y Nef 32t M Awdur, d.d. | £4.00 |
| DAVIES, Aneirin Talfan: Sylwadau 103t Aberystwyth, 1951 | £3.00 |
| DEUDDEG o Feirdd y Berwyn 131t M (clawr blaen wedi'i golli) Lerpwl, 1910 | £2.50 |
| EAMES, Myfanwy: Llawlyfr Prydiau Bwyd 116t Wrecsam, 1932 | £2.75 |
| EVANS, Ioan Mai: Crwydro Llŷn 48t M Caernarfon, 1965 | £3.00 |
| GWAITH Lewis Glyn Cothi 280t (meingefn ar goll) Rhydychen, 1837 | £12.50 |
| GWEITHIAU Barddonol Eben Fardd 527t Bangor, 1867 | £10.00 |
| GWILYM Deudraeth: Yr Awen Barod (Cyfrol Goffa) 71t M Gomer, 1943 | £2.25 |
| 'Chydig ar Gof a chadw 52t M Lerpwl, 1926 | £3.00 |
| GWYR Llên (gol. Aneirin Talfan Davies) 268t Llundain, 1949 (arg 2) | £8.00 |
| HUGHES, H. D: Y Chwarel a'i Phobol 92t Dryw, 1960 | £2.00 |
| JENKINS, David: Thomas Gwynn Jones 401t Gee, 1973 | £6.00 |
| JENKINS, D. E: Life of Rev. Thomas Charles of Bala 3 cyf. 1927t Dinbych, 1908 | £22.00 |
| JONES, J. R: Ac Onide 244t Dryw, 1970 | £20.00 |
| JONES, T. O. (Tryfan): Diarhebion y Cymry 110t Lerpwl, 1912 (arg. 2 diwygiedig) | £3.50 |
| LEWIS, Saunders: Buchedd Garmon 63t Aberystwyth, 1957 (arg 3) | £2.25 |
| Cerddi 86t Gregynog, 1986 (rhif 132 o 450 copi) | £20.00 |
| Ieuan Glan Geirionnydd 73t Caerdydd, 1931 | £5.00 |
| LLOYD, Hugh (Dyfrdwy): Hunangofiant Rybelwr 31t M Caernarfon, 1926 | £3.50 |
| LLYFR Pawb ar Bob Peth 318t Wrecsam, d.d. (arg. diwygiedig) | £6.50 |
| MOELONA: Teulu Bach Nantoer 72t Hughes, 1956 (arg. newydd) | £1.75 |
| OWAIN, O. Llew: Hanes y Ddrama yng Nghymru, 1850-1943 321t Brython, 1948 | £5.00 |
| PARRY, Gruffydd: Adroddiadau'r Co Bach 48t Gee, 1949 | £3.00 |
| PARRY-WILLIAMS, T. H: Carolau Richard White 107t Caerdydd, 1931 | £5.00 |
| PRITCHARD, Caradog: Canu Cynnar 92t Wrecsam, 1937 | £2.50 |
| PRITCHARD, John: Hanes Yr Ysgol Sir Ym Mrynrefail, Arfon 203t Caernarfon, 1940 | £5.00 |
| REES, George: Gwersi Mewn Llysieueg 148t dar. Aberystwyth, 1896 | £7.50 |
| ROWLANDS, E. D: Prif-Feirdd Eifionydd 143t Caernarfon, 1914 | £3.00 |
| ROWLANDS, O. Ll. a WILLIAMS, W. T: Nansi'r Dditectif 114t Brython, 1953 (arg.4) | £2.00 |
| THOMAS, David: Hen Longau a Llongwyr Cymru (dwyieithog) 80t M Caerdydd, 1949 | £6.00 |
| WILLIAMS, D. D: Twm o'r Nant 87M Bangor, 1911 | £3.50 |
| WILLIAMS, J. Ellis: Tri Dramaydd Cyfoes 130t Gee, 1961 | £7.50 |
| Y Chwarelwr 44t M ffoto. Blaenau Ffestiniog, d.d. | £4.50 |
| WILLIAMS, John G: Pigau'r Sêr 227t Gee, 1969 (arg. 1) | £5.50 |
| WILLIAMS, J. J: Y Lloer a Cherddi Eraill 142t Aberystwyth, 1936 | £1.50 |
| WILLIAMS, Myfi: Crwydro'r Creuddyn a Geirionnydd 48t M Caernarfon, d.d. | £3.00 |

M = clawr meddal Cludiad yn ychwanegol